

# Atgyfeiriadau a chymhwysedd

## Pwy all gael ei gyfeirio

I gael cymorth CASS, rhaid i deulu'r person ifanc fod yn **breswlydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili**. Byddwn yn darparu cymorth yn yr ysgol i berson ifanc sy'n cael ei addysgu yn un o ysgolion y Bwrdeistref Sirol ond sy'n byw y tu allan i'r Awdurdod.

Rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor am ddiagnosis pob plentyn neu person ifanc o **Anhwyllderau'r Sbectrwm Awtistiaeth** er mwyn iddyn nhw gael mynediad at y gwasanaeth.

Rydym yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer:

- Cyngor o fewn y lleoliad addysg
- Deall ymddygiadau sy'n peri pryder
- Cyngor a chefnogaeth ar gyfer pontio
- Datblygu arferion priodol
- Gweithredu strategaethau
- Cyfeirio a chynghor cyffredinol

## Pwy all wneud atgyfeiriad

Gall Ysgolion, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweithwyr Proffesiynol Iechyd, neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd wneud atgyfeiriadau.

Cysylltwch â CASS am ragor o wybodaeth neu am ffurflen atgyfeirio.

## Eich gwybodaeth bersonol

Caiff yr holl wybodaeth bersonol ei phrosesu yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Ewch i'n gwefan i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn.

## Gwybodaeth am ein gwasanaeth

Mae **Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili (CASS)** yn rhan o Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod.

Rydym yn cefnogi plant a phobl ifanc hyd at 18 oed sydd wedi cael diagnosis o Anhwyllderau'r Sbectrwm Awtistiaeth (ASD).

Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth a chynghor i:

- Rhieni, gofalwyr ac aelodau o'r teulu
- Athrawon
- Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)
- Staff Cymorth Dysgu
- Gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

## Cysylltwch â ni

Dyma sut y gallwch gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth :



Sganiwch y cod QR hwn gyda'ch ffôn clyfar neu dabled i ymweld â'n gwefan



[cass@sch.caerphilly.gov.uk](mailto:cass@sch.caerphilly.gov.uk)



01443 866000



## Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili



# Y gefnogaeth rydyn ni'n ei chynnig

## Cymorth yn yr ysgol

Gallwn ni gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr Awtistig. Gall y gefnogaeth hon gynnwys:

- modelu arfer da
- cyngor
- paratoi neu fenthycu adnoddau
- hyfforddi staff

**Nid yw CASS yn ymwneud â dyrannu oriau cymorth ychwanegol neu leoliadau ysgol.**

## Cymorth yn y cartref

Yn y lle cyntaf, rydym yn argymhell bod teuluoedd yn mynychu un o'n rhaglenni hyfforddi. Os oes angen cefnogaeth o hyd ar ôl yr hyfforddiant, yna gellir cyfeirio teuluoedd at y gwasanaeth am gyfnod byr, wedi'i dargedu o gefnogaeth.

Gall cefnogaeth gynnwys :

- cyngor
- strategaethau cyfeirio
- rhannu adnoddau
- atgyfeirio at wasanaethau priodol eraill

**Nid yw CASS yn cynnig unrhyw fath o ofal seibiant.**

Sganiwch y cod QR hwn i gofrestru eich diddordeb yn ein cyrsiau hyfforddi.



## Rhaglenni Hyfforddi

Dyma'r rhaglenni hyfforddi a chymorth rydyn ni'n eu cynnal ar gyfer rhieni, gofalwyr a theuluoedd pobl ifanc:

- **Rhaglen Early Bird NAS** - Cwrs 6 wythnos i'r rhai sydd â phlentyn 0-6 oed sydd wedi cael diagnosis o ASD.
- **Rhaglen Early Bird Plus NAS** - Cwrs 6 wythnos i'r rhai sydd â phlentyn 5-10 oed sydd wedi cael diagnosis o ASD. Os yw'r plentyn yn yr ysgol, gall aelod o staff yr ysgol fynychu'r hyfforddiant hefyd.
- **Rhaglen Teen Life NAS** - Rhaglen 6 sesiwn ar gyfer y rhai sydd â phlentyn 10-16 oed. Nod y rhaglen yw dod â rhieni ynghyd i rannu gwybodaeth, profiadau a syniadau mewn ffordd strwythuredig.
- **Rhaglen Gymorth Awtistiaeth Cygnet Barnardo's** - Rhaglen Awtistiaeth 6 wythnos i'r rhai sydd â phlant sydd wedi cael diagnosis o ASD. Y nod yw cynyddu dealltwriaeth rhieni o Awtistiaeth a rhoi strategaethau ymarferol iddynt y gallant eu defnyddio gyda'u plentyn.



Rydym hefyd yn cynnal y cwrs canlynol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ASD:

- **Understanding Me** - Ymyrraeth grŵp ar gyfer pobl ifanc Awtistig sy'n archwilio beth mae awtistiaeth yn ei olygu iddyn nhw. Fel arfer yn addas ar gyfer plant 11 oed a hŷn. Fe'i cynhelir mewn ysgolion uwchradd.

## Ar gyfer ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill

Rydym yn cynnig pecynnau hyfforddi fel rhan o hyfforddiant ysgol gyfan neu ar gyfer grwpiau llai.

Mae ein hyfforddiant yn cynnwys:

- Cyflwyniad i Awtistiaeth
- Strategaethau a dulliau dosbarth cyffredinol
- Awtistiaeth a masgio - cyflwyniad mewnol
- Awtistiaeth a merched
- Deall a chynorthwyo gydag ymddygiadau sy'n peri pryder
- Deall a chwrdd ag anghenion synhwyrdd

Gallwn hefyd ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu anghenion eich lleoliad neu staff unigol.

Cysylltwch â CASS am ragor o wybodaeth.



## Niwrowahaniaeth Cymru

Rydym yn argymhell bod pob ysgol a lleoliad gwasanaeth yn cwblhau'r rhaglen **Dysgu am Awtistiaeth** gan Niwroamrywiaeth Cymru.

Gellir dod o hyd i adnoddau a gwybodaeth ar gyfer pob grŵp oedran ar eu gwefan :



<https://neurodivergencewales.org/cy>

Gall ysgolion a theuluoedd hefyd gael mynediad i'r wefan hon am wybodaeth, adnoddau, gweithdai hyfforddi a mwy.